Educate Against ~~Hate~~



Trais Addysg wedi'i Dargedu

Fe'i gelwir hefyd yn Gyflafan Ysgol, Saethu mewn Ysgol neu Drais Ysgol wedi'i Dargedu

Esboniad Educate Against Hate

HM Government

CYNNWYS

03 Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

04 Rhybudd cynnwys

05 Beth yw Trais Addysg wedi'i Dargedu?

06 Ymddygiadau a diddordebau

09 Astudiaeth achos

11 Cymorth i addysgwyr

13 Adnoddau

14 Beth i'w wneud os oes gennych bryderon

15 Beth i'w wneud mewn digwyddiad

16 Cyfeiriadau

Ar gyfer pwy mae'r esboniad hwn?

Mae'r esboniad hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau wedi'u cynllunio i'ch helpu i ddeall a nodi amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae'n ategu ein hesboniadau ar y canlynol:

- Incels
- Algorithmau
- Y Manosffer

Mae'r esboniad hwn yn nodi beth yw Trais Addysg wedi'i Dargedu a'r arwyddion y gallai person ifanc fod yn ymgysylltu ag ef. Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer:

- athrawon ysgolion uwchradd ac Addysg Bellach
- arweinwyr ysgolion
- personau diogelu dynodedig
- pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg sy'n destun i'r ddyletswydd Prevent

Rhybudd cynnwys

Mae'r esboniad hwn yn cynnwys:

- cyfeiriadau at ymosodiadau treisgar ar addysg, gan gynnwys saethu mewn ysgolion a chyflafanau mewn ysgolion
- cyfeiriadau at gynnwys eithafol gan gynnwys dathlu cyflafanau mewn ysgolion, ac ideolegau eithafol eraill
- cyfeiriadau at fwlio, hunan-niweidio, a hunanladdiad

Byddem yn eich annog i geisio cymorth os yw unrhyw ran o'r cynnwys yn effeithio arnoch.

Mae tudalen 14 y ddogfen hon yn esbonio beth i'w wneud os oes gennych bryderon am berson ifanc.

Pam mae'r esboniad hwn yn bodoli

Mae'r esboniad hwn wedi'i greu i helpu lleoliadau addysgol o bob math i ddeall arwyddion rhybudd Trais Addysg wedi'i Dargedu ac i gyfeirio at ragor o wybodaeth a chymorth.

Nid yw wedi'i fwriadu i fod yn ganllawiau nac yn gymorth swyddogol, a dylai lleoliadau ofyn am gyngor pellach gan eu timau Prevent perthnasol, naill ai yn nhimau'r Awdurdod Lleol neu'r Heddlu. Bydd y cymorth a gynigir yn amrywio fesul achos. Sylwch fod atgyfeiriad Prevent wedi'i fwriadu i gefnogi'r rhai a allai fod yn agored i niwed o ran cael eu denu i derfysgaeth. Efallai na fydd rhai unigolion sydd ag obsesiwn â thrais eithafol yn cael eu hysgogi gan ideoleg, ac felly efallai na fyddant yn cyrraedd y trothwy ar gyfer Prevent. Mewn achosion o'r fath, gall cefnogaeth gan asiantaethau eraill fod yn fwy priodol.

Os oes bygythiad o drais addysg wedi'i dargedu tuag at eich sefydliad, rhaid i chi gysylltu â'r heddlu ar unwaith.

Trais Addysg wedi'i Dargedu



Beth yw Trais Addysg wedi'i Dargedu?

Mae Trais Addysg wedi'i Dargedu – neu gyflafan ysgol, neu saethu mewn ysgol fel y'i gelwir yn aml – yn ddigwyddiad lle mae dysgwr presennol neu gyn-ddysgwr yn ceisio anafu myfyriwr neu aelod o staff, neu achosi ei farwolaeth, o fewn tir lleoliad addysgol, gan dargedu grŵp neu unigolyn ymlaen llaw.[1]

Er bod y derminoleg yn aml yn cyfeirio at ysgolion, gall hyn ddigwydd mewn unrhyw leoliad addysgol gan gynnwys colegau, prifysgolion, a lleoliadau y tu allan i'r ysgol.

Yn aml, mae gan unigolion sy'n dangos diddordeb mewn cyflawni'r math hwn o niwed ddiddordebau ac ymddygiadau neilltuol a allai rybuddio eraill am eu cynlluniau, ac ymdrinnir â'r rhain yn yr esboniad hwn.

Pam mae hyn yn berthnasol yn y DU?

Er bod deddfau arfau tanio'r DU yn llymach na rhai gwledydd eraill, nid yw hyn yn golygu na allai cyflafan ysgol ddigwydd yn y DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd mewn atgyfeiriadau i Prevent ar gyfer pryderon "cyflafan ysgol", gyda 162 o atgyfeiriadau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.[2] Yn ogystal â hyn, bu sawl arestiad ledled y DU o unigolion a oedd yn cynllunio'r math hwn o ymosodiad. Gallai bod yn wyliadwrus am Drais Addysg wedi'i Dargedu posibl achub bywydau yn y pen draw.

Ymddygiadau a diddordebau

Nid oes proffil

Fel gyda'r rhan fwyaf o bryderon Prevent, nid oes un proffil o unigolyn a allai gyflawni Trais Addysg wedi'i Dargedu neu fod yn darged iddo – na phroffil ar gyfer lleoliad addysgol a dargedir. Nid yw'r ymddygiadau a'r diddordebau isod, sydd wedi'u cymryd o achosion gwirioneddol yn ogystal ag ymchwil academaidd, yn rhestr gynhwysfawr. Dylid ystyried ymddygiadau yn eu cyd-destun, a phan fônt yn amwys dylid cynnal sgyrsiau priodol â'r person dan sylw – os yw'n briodol – yn ogystal â gweithwyr diogelu proffesiynol a'r heddlu.

Dylanwadau ar-lein

Mae'r syniad y gellir datrys problemau unigolyn drwy Drais Ysgol wedi'i Dargedu i'w weld weithiau'n tarddu o ymgysylltu â deunydd ar-lein yn ymwneud â chyflafanau neu achosion o saethu mewn ysgolion blaenorol, yn aml yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft.

Drwy ymgysylltu â rhai cymunedau ar-lein sy'n ceisio uniaethu â gweithredoedd cyflawnwyr Trais Addysg wedi'i Dargedu blaenorol neu eu gogoneddu, gall unigolion ddod i weld pethau cyffredin rhwng eu sefyllfa eu hunain a sefyllfa'r cyflawnwyr. Gall hyn arwain at weld gweithredoedd y cyflawnwyr fel ateb dilys i'w problemau eu hunain, a gwneud i'r syniad o Drais Addysg wedi'i Dargedu ymddangos yn bosibilrwydd realistig.

Gellir dod o hyd i gynnwys Trais Addysg wedi'i Dargedu ar sawl platfform cyfryngau cymdeithasol prif ffrwd, ac felly mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn cael eu haddysgu ynghylch diogelwch ar-lein a llwybrau atgyfeirio ar gyfer unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Diddordeb yn ymosodiad Columbine, 20 Ebrill 1999

Mewn llawer o bryderon o fath trais addysg wedi'i dargedu, ceir cyfeiriadau at yr ymosodiad yn Ysgol Uwchradd Columbine yn yr Unol Daleithiau ar 20 Ebrill 1999.

Arweiniodd yr ymosodiad yn Ysgol Uwchradd Columbine at golli 15 o fywydau a llawer mwy o anafiadau. Cyflawnwyd yr ymosodiad gan Eric Harris a Dylan Klebold – 18 a 17 oed yn y drefn honno – ac fe'i cynlluniwyd yn wreiddiol fel ymosodiad â ffrwydron, er na ffrwydrodd y rhain. Cymerodd y ddau gyflawnwr eu bywydau eu hunain ar ôl dod â'r ymosodiad i ben.

Digwyddodd yr ymosodiad yng ngŵydd y cyfryngau, ac felly cafodd sawl agwedd ar y digwyddiad gyhoeddusrwydd, megis dyddiaduron y cyflawnwyr a phroffiliau amrywiol ohonynt yn y cyfryngau sy'n dal i fod ar gael ar-lein. Mae hyn wedi arwain at rai unigolion yn uniaethu â chymhellion tybiedig y cyflawnwyr ac, mewn rhai achosion, yn eu heilunaddoli.

Ymddygiadau a diddordebau

Os yw rhywun yn gwneud yr isod a/neu os oes gennych bryderon eraill neu rai presennol, gofynnwch am gyngor ar frys:

- Ymddangos yn obsesiynol ynghylch ymosodiad Columbine, neu wedi'i gyfareddu'n ormodol ganddo, ochr yn ochr â phryderon diogelu cyd-destunol eraill
- Chwilio am ddelweddau gwaedlyd sy'n gysylltiedig â Columbine, gan gynnwys delweddau o'r cyflawnwyr a chyrff y dioddefwyr a methodoleg y cyflawnwyr
- Gogoneddu neu ddathlu'r ymosodiad neu'r cyflawnwyr
- Efelychu delweddau'r cyflawnwyr, fel y crys T 'Wrath' neu'r crys T 'Natural Selection'
- Mynegi awydd i gyflawni ymosodiad yn null Columbine
- Gweld ystyr arbennig yn y dyddiad 20 Ebrill mewn perthynas â Columbine, neu ddefnyddio ymadroddion neu eiriad cysylltiedig
- Defnyddio llysenwau'r cyflawnwyr (REB a VoDKa)

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a dylid ystyried pob un yng nghyd-destun pryderon eraill. Dylai lleoliadau addysgol ofyn am gyngor os oes ganddynt unrhyw bryderon, boed y rheini'n cynnwys yr enghreifftiau anghyflawn uchod ai peidio.

Diddordeb mewn cyflafanau mewn ysgolion eraill

Gall obsesiwn neu ddiddordeb ysol mewn cyflafanau neu achosion o saethu mewn ysgolion eraill fod yn ymddygiad sy'n peri pryder, yn yr un modd â diddordeb ysol yn Columbine. Gall hyn ymddangos mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft dogfennau neu nodiadau sy'n manylu ar gyflafanau mewn ysgolion eraill a llofruddiaethau torfol.

Mae rhai o'r ymosodiadau y cyfeirir atynt amlaf wedi'u lleoli yn yr Unol Daleithiau, ac maent yn cynnwys Columbine, Sandy Hook, Parkland, a Virginia Tech, er bod llawer mwy.

Mae'r cyd-destun yn allweddol; mae llawer o wybodaeth ar gael am gyflafanau blaenorol mewn ysgolion – peth ohoni'n academaidd, peth ohoni ddim – ac efallai mai dim ond ymchwilio i ddiddordeb y mae unigolion. Gall fod yn arbennig o bryderus pan fo'r diddordeb yn mynd yn hollgynhwysol ac yn obsesiynol, a phan fo materion diogelu neu les eraill yn bresennol – a dylid defnyddio barn broffesiynol. Dylid cyfeirio unrhyw ddatgeliad o fwriad ynghylch cyflawni ymosodiad at yr heddlu ar unwaith.

Ymddygiadau a diddordebau

Rhannu cynlluniau ag eraill (datgelu)

Un o nodweddion mawr pryderon o fath Trais Addysg wedi'i Dargedu yw datgelu cynlluniau i eraill. Yn yr Unol Daleithiau, roedd 94% o achosion yn cynnwys y cyflawnwyr yn rhannu eu bwriad i gyflawni ymosodiad ag eraill.[3]

Gall y datgelu hwn ddigwydd mewn sawl ffordd a gall datgeliadau ddigwydd i wahanol bobl, gan gynnwys teulu, staff ysgol, a myfyrwyr a chyfoedion eraill. Nid yw'r enghreifftiau canlynol yn gynhwysfawr, ond dyma rai ffurfiau posibl:

- Dolenni i bostiadau ar-lein am ymosodiad arfaethedig
- Dolenni i faniffestos
- Rhybuddio ffrindiau i osgoi mynychu ar ddiwrnodau penodol
- Rhannu 'rhestrau lladd'
- Manylu'n agored ar gynllun yr ymosodiad
- Postiadau ar-lein ar wahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol
- Cynlluniau a mynegiadau o bryder o fewn traethodau ysgol, ymarferion ysgrifennu creadigol, a gwaith cwrs, er enghraifft

Yn gysylltiedig â hyn mae 'negeseuon terfynol' ac er mai'r bwriad yn aml yw iddynt gael eu darganfod ar ôl ymosodiad, cânt eu rhannu weithiau ymlaen llaw â ffrindiau a phartneriaid rhamantus, er enghraifft. Gall y rhain gynnwys negeseuon ffarwelio, sôn am hunanladdiad, rhoi eiddo i eraill, a fersiynau o ewyllysiau.

Rhaid cymryd bygythiadau o Drais Addysg wedi'i Dargedu o ddifrif bob amser, a rhaid i'r llwybrau ar gyfer codi pryderon fod yn glir i staff a myfyrwyr. Dylid cynnwys yr heddlu cyn gynted ag y derbynnir unrhyw fygythiad.

Rhestrau lladd a chynlluniau ymosod

Nodwedd gyffredin o Drais Addysg wedi'i Dargedu yw presenoldeb rhestr ladd a/neu gynllun ymosod. Gall y rhain amrywio'n enfawr o ran manylder a realaeth ond rhaid eu cymryd o ddifrif bob amser. Gall fod yn y fformatau isod, er mai enghreifftiau yn unig yw'r rhain:

- Map o'r lleoliad addysgol â nodiadau
- Rhestr o bobl i'w targedu, a all gynnwys cyfiawnhad a threfn
- Rhestr o arfau
- Rhestr o ddeunyddiau sy'n peri pryder y gellid eu defnyddio i greu arf neu ffrwydryn
- Llinell amser ymosodiad, â digwyddiadau a sbardunau

Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr. Os yw myfyriwr yn datgelu rhestr ladd a/neu gynllun ymosod i unrhyw un, dylid cyfeirio hyn at yr heddlu ar unwaith.

Astudiaeth achos

Mae'r astudiaeth achos hon yn seiliedig ar sefyllfa go iawn yn y DU. Mae'r manylion wedi'u newid er mwyn cadw pawb yn ddienw.

Roedd Mr Brown, athro Saesneg mewn ysgol uwchradd, wedi gosod aseiniad ysgrifennu creadigol i'w ddosbarth. Ar ôl derbyn yr aseiniadau gorffenedig, dechreuodd bryderu am gyflwyniad Jack. Fe'i hysgrifennwyd o safbwynt gwn a ddefnyddiwyd mewn achos o saethu mewn ysgol a oedd yn debyg i Sandy Hook, ac ymddangosai'n ddarlun cadarnhaol o'r digwyddiad. Tynnodd Mr Brown sylw ei Arweinydd Diogelu Dynodedig at hyn, a chafodd sgwrs â Jack. Esboniodd Jack fod ganddo ddiddordeb mewn achosion o saethu mewn ysgolion ar ôl gweld gwybodaeth amdanynt ar y cyfryngau cymdeithasol, ac esboniodd Mr Brown sut y gallai ei ddarlun o'r digwyddiad beri gofid a chael ei ystyried yn olwg gadarnhaol ar saethu mewn ysgolion. Dywedodd Jack ei fod yn deall, ac ymddiheurodd am beri pryder. Trosglwyddodd Mr Brown hyn i'w Arweinydd Diogelu Dynodedig, a chofnododd yntau'r mater ar y system.

Yn y wers wyddoniaeth yn ddiweddarach yr wythnos honno, cafodd Jack ei baru â Nathan. Siaradwyd â'r ddau sawl gwaith am ganolbwyntio yn y dosbarth, a threuliasant gyfran fawr o'r wers yn ysgrifennu ac yn tynnu lluniau yng nghefn eu llyfrau ymarferion. Gofynnodd yr athro am gael gweld yr hyn yr oeddent yn ei ddarlunio, a sylwodd ar fap o'r ysgol wedi'i orchuddio â delweddau treisgar a'r geiriau "Natural Selection". Yna cafodd Nathan ei atal rhag gadael yr ystafell ddosbarth â sawl bicer a thiwb profi yn ei fag. Cafodd ei gadw ar ôl ysgol, a siaradwyd ag ef am ba mor werthfawr yw offer labordy. Codwyd y lluniau a'r ymgais i ddwyn offer labordy gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig, a threfnodd yntau sgwrs â rhieni Nathan a Jack ar ôl ysgol.

Yn ystod egwyl y bore ar ôl y wers wyddoniaeth, aeth myfyriwr arall at ei diwtor dosbarth a gofyn am gael sgwrs yn breifat. Dangosodd i'w diwtor fideo a lanlwythwyd i'r cyfryngau cymdeithasol gan Jack. Roedd y fideo'n dangos clip o'r saethu yn Columbine gyda'r geiriau "Peidiwch â mynd i'r ysgol ar 20 Ebrill" a logo ysgol y myfyriwr wedi'u gosod drosto. Tynnodd y tiwtor sylw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig at hyn ar unwaith.



Astudiaeth achos

Ar ôl derbyn y pryder am y fideo ar y cyfryngau cymdeithasol, ffoniodd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yr heddlu oherwydd y bygythiad i'r ysgol. Ymchwiliodd yr heddlu, gan ddatgelu cynllun gan Jack i greu coctels Molotov ac ymosod ar ffreutur yr ysgol pan fyddai'r nifer mwyaf o fyfyrwyr yn bresennol amser cinio. Daethpwyd o hyd hefyd i bostiadau pellach ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn manylu ar gwynion a oedd gan Jack yn erbyn sawl myfyriwr ac aelod o staff ynghylch bwlio a graddau isel mewn dosbarthiadau, ac yn cynnwys rhestr ladd fanwl. Canfuwyd bod Jack yn weithgar mewn sawl man ar-lein sy'n ymroddedig i ogoneddu saethwyr ysgolion, ac roedd ganddo gasgliad mawr o ddelweddau gwaedlyd ar ei ffôn, y rhan fwyaf ohonynt yn ddelweddau o gyflafanau mewn ysgolion eraill. Roedd gan Jack hefyd ddogfen gyfarwyddiadau a oedd yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Terfysgaeth; cafodd ei arestio ac mae'n aros am ei achos llys.

Canfuwyd bod Nathan wedi cael ei dynnu i mewn i'r cynllun hwn drwy ei ddiddordeb mewn cemeg, ac nad oedd yn ymwybodol bod y cynllun yn gwbl real. Credai fod Jack yn gweithredu ar sail ffantasi am ddial, a theimlai fod y cyfan fel rhyw fath o gêm, er ei fod yn gweld y syniad yn ddeniadol. Roedd Nathan hefyd yn teimlo mai Jack oedd ei unig ffrind, ac felly ni allai ddweud na, na chodi pryderon. Roedd gan Nathan fywyd cartref ansefydlog, ac roedd wedi ymwneud â gofal cymdeithasol o'r blaen oherwydd sefyllfa o drais domestig. Atgyfeiriwyd Nathan i Prevent am gymorth i gryfhau ei wydnwch rhag radicaleiddio.



Cymorth i addysgwyr

Os oes gennych bryder i'w drafod:

Un llwybr cymorth, pan godir pryder Prevent sy'n cyd-fynd â Thrais Addysg wedi'i Dargedu, yw drwy'r awdurdod lleol perthnasol, a all – gyda chymorth Plismona Gwrthderfysgaeth – helpu i asesu risg y sefyllfa a chynnig cymorth pwrpasol i'ch lleoliad addysgol. Gwneir hyn fesul achos, a bydd pob cynnig o gymorth yn unigryw i'r sefyllfa dan sylw. Caiff y cymorth hwn ei roi ar waith pan wneir atgyfeiriad, a chaiff ei ddarparu drwy bartneriaid Prevent lleol fel yr Heddlu, timau'r Awdurdod Lleol, neu'r broses Panel Channel.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth, siaradwch â'r heddlu.

Diogelwch amddiffynnol a pharodrwydd

Os bydd atgyfeiriad neu bryder ynghylch Trais Ysgol wedi'i Dargedu yn eich lleoliad, mae cymorth ar gael i chi.

Mae mesurau diogelwch amddiffynnol a pharodrwydd yn hanfodol i sicrhau bod pob lleoliad addysg yn cael ei ddiogelu ac yn barod i ymateb yn effeithiol i liniaru effaith Trais Addysg wedi'i Dargedu.

Dylai pob lleoliad addysg ddatblygu cynlluniau i wella ymwybyddiaeth o ddiogelwch amddiffynnol a gwella parodrwydd, gyda'r nod o rwystro unigolion sydd â bwriad niweidiol. Cafodd Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025, y cyfeirir ati'n gyffredin fel Cyfraith Martyn, Gydsyniad Brenhinol ar 3 Ebrill 2025. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno gofynion newydd i'r rhai sy'n gyfrifol am fangreoedd a digwyddiadau penodol ystyried a gweithredu mesurau diogelwch cymesur i amddiffyn y cyhoedd rhag terfysgaeth.

Er nad yw'r Ddeddf mewn grym eto, mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd cyfnod gweithredu o 24 mis o leiaf. Bwriad hyn yw rhoi digon o amser i sefydliadau, gan gynnwys lleoliadau addysg, ddeall eu rhwymedigaethau a pharatoi yn unol â hynny.



Cymorth i addysgwyr

Mae Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi gwybodaeth sy'n esbonio sut y bydd y Ddeddf yn effeithio ar ysgolion, colegau a darparwyr addysg eraill. Bydd canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi cyn cychwyn y Ddeddf, wedi'u cynllunio i fod yn glir, yn hygyrch ac yn ymarferol.

Dylai lleoliadau sefydlu a phrofi cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau yn rheolaidd. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys gweithdrefnau ar gyfer mewngiliad, ymgiliad a chyfyngiadau symud, yn ogystal â phrotocolau cyfathrebu a strategaethau ar gyfer parhad busnes a dychwelyd i weithrediadau arferol.

Mae pob aelod o staff yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin diwylliant o ddiogelwch a pharodrwydd. Dylai staff fod yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau ymateb y lleoliad, y llwybrau ymadael, a'r gwaith o baratoi pecynnau ymateb i argyfwng.

Mae 'Canllawiau i leoliadau addysg ar gynllunio at argyfyngau ac ymateb iddynt' Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ar gynllunio ymateb i weithgarwch troseddol.

Bygythiad Mewnol

Mae'r Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol (NPSA) yn darparu canllawiau ar reoli bygythiadau mewnol, sef risgiau a achosir gan unigolion o fewn sefydliad – fel staff, contractwyr, neu fyfyrwyr – a allai achosi niwed yn fwriadol neu'n anfwriadol drwy gamddefnyddio eu mynediad at wybodaeth, systemau neu gyfleusterau sensitif.

Drwy hyrwyddo diwylliant diogelwch cryf, rheoli mynediad, fetio staff, a pharatoi cynlluniau ymateb, gall lleoliadau addysgol amddiffyn eu pobl, eu data a'u henw da yn well.



Adnoddau

Mae gan Adran Addysg Llywodraeth y Deyrnas Unedig nifer o adnoddau sydd wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid sector sy'n gyfrifol am wrthderfysgaeth, diogelwch ar lefel genedlaethol, ac amddiffyn. Mae'r adnoddau hyn yn helpu lleoliadau addysg i baratoi, ymateb ac adfer yn effeithiol:

- Mae Cadw'n ddiogel ar-lein yn un o wefannau Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy Hwb - platfform addysgu a dysgu Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau ar gyfer cymuned yr ysgol ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys camwybodaeth, casineb, radicaleiddio ac eithafiaeth.

- Mae ACT for Youth yn adnodd addysgu wedi'i anelu at bobl ifanc 11-16 oed, sy'n eu haddysgu sut i gadw'n ddiogel yn ystod ymosodiad terfysgol neu ymosodiad difaol. Mae'n canolbwyntio ar egwyddorion craidd RHEDEG, CUDDIO, DYWEDWCH, gan rymuso myfyrwyr â chamau gweithredu clir ar beth i'w wneud os cânt eu hunain mewn sefyllfa beryglus.

- Mae ACT for Education, a ddatblygwyd gyda'r Swyddfa Ddiogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol, yn rhoi'r wybodaeth i'r holl staff, gan gynnwys staff nad ydynt yn addysgu, i adnabod gweithgarwch amheus, deall gwendidau yn eu lleoliad, ac ymateb yn briodol yn ystod digwyddiad. Mae'r e-ddysgu rhyngweithiol hwn yn helpu i ymgorffori diwylliant o wyliadwriaeth a pharodrwydd ar draws lleoliad.

- Mae ProtectUK yn darparu cyngor, arweiniad a dysgu am ddim i helpu busnesau a chymunedau i ddeall diogelwch amddiffynnol a gwella eu hymateb i'r risg o derfysgaeth.



Beth i'w wneud os oes gennych bryderon

Beth i'w wneud os oes gennych bryderon uniongyrchol am ddiogelwch

Os ydych yn meddwl bod rhywun mewn perygl uniongyrchol, neu os byddwch yn gweld neu'n clywed rhywbeth a allai fod yn gysylltiedig â therfysgaeth, dylech ymddiried yn eich greddf a ffonio 999 neu'r Llinell Gymorth Gwrthderfysgaeth gyfrinachol ar 0800 789 321.

Beth i'w wneud os oes gennych bryderon ynghylch radicaleiddio

Dylai eich camau gweithredu cyntaf fod yn dilyn gweithdrefnau diogelu safonol eich lleoliad. Mae hyn yn cynnwys trafod unrhyw bryderon ag arweinydd diogelu dynodedig eich ysgol, a allai gymryd cyngor pellach gan yr awdurdod lleol.

Cymorth ychwanegol y tu allan i'ch ysgol

Siaradwch â thîm diogelu ysgolion neu dîm Prevent eich awdurdod lleol a/neu cysylltwch â'ch heddlu lleol neu ffoniwch 101 fel rhif yr heddlu nad yw'n rhif brys.
I gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud os oes gennych bryderon, ewch i Educate Against Hate.



Beth i'w wneud os ydych yn wynebu digwyddiad

Os bydd digwyddiad o fath Trais Addysg wedi'i Dargedu, ffoniwch yr heddlu ar 999 ar unwaith a rhowch fanylion llawn a chywir am y sefyllfa iddynt. Lle bo'n bosibl, uwchgyfeiriwch y digwyddiad yn ddi-oed at eich arweinydd diogelwch neu aelod o staff sydd yn y sefyllfa orau i gydlynu cynlluniau ymateb i ddigwyddiadau eich lleoliad, a throsglwyddwch unrhyw gyngor gan yr heddlu iddynt. Bydd yr heddlu yn cynnig cyngor hanfodol ar reoli'r digwyddiad, gan gynnwys strategaethau i liniaru risgiau a sicrhau diogelwch yr holl unigolion ar y safle.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yn Llywodraeth y DU ac eraill, fel awdurdodau lleol a'r heddlu, i gefnogi lleoliadau addysgol yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau difrifol, gan gynnwys ymosodiadau terfysgol posibl. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at gyngor ar sut i gael gafael ar gymorth iechyd meddwl, ac adnoddau i athrawon ar sut i drafod y materion sy'n gysylltiedig â digwyddiadau difrifol.



Cyfeiriadau

1 Protecting_Americas_Schools.pdf (t3)
2 Individuals referred to and supported through the Prevent Programme, April 2023 to March 2024 - GOV.UK
3 USSS Averting Targeted School Violence.2021.03.pdf (t25)

Educate Against ~~Hate~~